Prifathrawes newydd Hwlffordd yn dechrau ym mis Chwefror



Bydd prifathrawes newydd Ysgol Uwchradd WR Hwlffordd yn cychwyn ei swydd yng nghanol mis Chwefror eleni.

Penododd y corff llywodraethol dros dro Mrs Harries yn Brifathrawes ar yr ysgol cyfrwng Saesneg newydd i blant rhwng 11-19 yn hwyr y llynedd.

Bydd yr Ysgol Uwchradd WR yn agor ei drysau fis Medi ar safleoedd presennol ysgolion Syr Thomas Picton a Tasker Milward.

Mae'r gwaith o werthuso'r safleoedd yn digwydd ar hyn o bryd, ac mae'r'r Cyngor yn bwriadu dewis safle parhaol ar gyfer adeilad newydd i'r holl ddisgyblion yn hwyrach yn y flwyddyn.

Ddoe (Dydd Iau), cynhaliodd Mrs Harries – Pennaeth presennol Ysgol Uwchradd Llanidloes ym Mhowys – gyfarfodydd gyda staff, rhieni disgyblion Tasker Milward a Syr Thomas Picton a darpar rieni, er mwyn cyflwyno'i hun a thrafod ei gweledigaeth ar gyfer yr ysgol newydd.

Dywedodd mai ei phrif amcan oedd darparu addysg arbennig ar gyfer disgyblion Hwlffordd, a hynny o fewn amgylchedd addysg gynhwysol a dyfeisgar.

"Fy mwriad yw galluogi pawb i gyrraedd eu llawn botensial, i feithrin cariad tuag at ddysgu gydol oes, ac i annog pawb i gredu'r geiriau: 'os y credwch chi, fe gyflawnwch chi."

Yn ystod y cyfarfod cafodd y staff a'r rhieni wybod pa grwpiau blwyddyn fyddai ar pa safle ym mis Medi.

Bydd blynyddoedd 8, 9,11, a 13 yn cael eu dysgu ar yr un safle ag arfer. Bydd blwyddyn 7 yn cael eu dysgu yn Ysgol Tasker Milward, a blynyddoedd 10 a 12 yn Ysgol Syr Thomas Picton.

Gwnaethpwyd y penderfyniadau gan y corff llywodraethu dros dro, mewn ymgynghoriad â Mrs Harries ynghyd â swyddogion yr Awdurdod Lleol.

Mae penodiad Mrs Harries yn golygu ei bod yn dychwelyd i fro ei mebyd, gan ei bod wedi bod yn ddisgybl yn ysgol gynradd Mair Wiwlan ac Ysgol Ramadeg y Merched Taskers cyn mynychu'r brifysgol yn Abertawe i dderbyn ei gradd.

Dechreuodd ei gyrfa addysgu yn Ysgol Penfro, cyn symud i faes addysg bellach am gyfnod. Yna dychwelodd i addysg uwchradd, gan weithio yn ysgolion Tregib a Phantycelyn yn Sir Gaerfyrddin. Yno, cafodd brofiad uniongyrchol o arwain uniad dwy ysgol wrth iddynt gyfuno dan enw Ysgol Bro Dinefwr ar safle newydd yn 2016

Mae hi wedi bod yn Brifathrawes Ysgol Uwchradd Llanidloes ers dwy flynedd bellach. Pan benodwyd hi roedd hi'n ysgol gradd Ambr, ond ers ennill gradd 'Da' ar gyfer safonau a rhagolygon gwelliannau yn eu harolwg Estyn yn Ebrill 2016 mae hi bellach yn ysgol Werdd.

Mae gan Mrs Harries, sydd wrthi'n dysgu Cymraeg, gefnogaeth frwd ei theulu yn ei swydd newydd.

Llun
Yn y llun gwelir Mrs Jane Harries, fydd yn cychwyn ei gwaith fel Prifathrawes Ysgol Uwchradd WR Hwlffordd ym mis Chwefror.

ID: 3003, revised 19/01/2018